Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

# Fframwaith Datblygu a Hyfforddi Ôl-Mabwysiadu y GMC

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae'r deunyddiau hyn wedi'u datblygu ar ran y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer teuluoedd mabwysiadol
- Eu diben yw i ddarparu adnodd datblygu a dysgu ar gyfer mabwysiadwyr ar ôl lleoli
- Gellir defnyddio'r offer hyn gan grwpiau neu gan unigolion.
- Mae llawer o wybodaeth yn y nodiadau o dan bob sleid felly mae'n bwysig darllen y rhain hefyd gan eu bod yn darparu gymaint mwy o wybodaeth a rhai syniadau defnyddiol o ran darllen pellach.

# Theori ymlyniad a'i berthnasedd ar gyfer rhianta plant mabwysiedig

# Deilliannau Dysgu

- Erbyn diwedd y modiwl hwn byddwch wedi dysgu…
- Beth mae pobl yn ei olygu pan fyddan nhw'n siarad am theori ymlyniad
- Sut y gall theori ymlyniad ein helpu i ddeall sut mae ymennydd plant yn datblygu.
- Pam fod hyn yn bwysig i ddatblygiad plant ac ymddygiad yn ddiweddarach.
- Sut y gallai'r syniadau hyn gefnogi rhieni mabwysiadol i adeiladu perthynas gyda'u plant.

# Mae rhieni mabwysiadol sy'n ysgrifennu'r deunyddiau hyn am gydnabod ei bod hi'n gallu bod yn anodd!

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

*Mae'n iawn – dydyn ni ddim bob amser yn iawn – ar ôl diwrnod anodd, cofiwch y gallwch chi ddechrau eto yfory!*

*"Roedd hi'n ddefnyddiol pan fyddai pobl yn dweud 'Nid yw ceisio perffeithrwydd yn ddigon da; mae digon da yn ddigon da'"*

# Pam fod theori ymlyniad yn ddefnyddiol i fabwysiadwyr?


Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Gall defnyddio theori ymlyniad ein helpu i ddeall sut mae plant yn gwneud perthnasau yn y presennol, drwy ddeall eu profiadau yn y gorffennol yn well a sut mae'r rhain wedi effeithio ar eu hunaniaeth graidd, eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a datblygiad eu hymennydd (gweler y cwrs Iechyd a Datblygiad).
- Os gall oedolion o amgylch plentyn rannu dealltwriaeth o sut mae plentyn yn profi'r byd, a datblygu dull cyffredin o gefnogi'r plentyn ac ymateb i unrhyw anawsterau, yna gellir meithrin perthnasau ymddiriedus, cadarn a bydd canlyniadau yn gwella.

# Anghenion Sylfaenol Plentyn

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Maslow:



# Beth rydyn ni'n ei golygu gydag ymlyniad?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

"Mae ymlyniad yn cael ei ffurfio drwy berthynas ofalgar gyson rhwng oedolyn a phlentyn, yn cael ei rhoi ar waith o ganlyniad i straen (anghenion corfforol, bygythiadau, perthnasau sy'n cael eu hamharu ac ati) ac sy'n cael eu cyflawni drwy ofal corfforol sy'n cynnwys agosrwydd corfforol a chyswllt corff sy'n bodloni anghenion sylfaenol y plentyn am gysur corfforol ac emosiynol. Mae dwyochredd a pharhad yn ddilysnodau"


Beesley 2010

# Ymlyniad a datblygiad yr ymennydd

- Mae ymlyniad yn bwysig oherwydd rydym yn gwybod fod datblygiad ymennydd baban yn cael ei effeithio gan y rhianta mae'n ei dderbyn.
- Wrth i dechnoleg delweddu'r ymennydd ddatblygu rydym wedi dod yn fwy ymwybodol o sut mae'r perthnasau cynnar hyn yn effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd.
- Mae rhyngweithio cadarnhaol yn cefnogi datblygu cysylltiadau newral.

# Y Cylch Rhoi Gofal

- Pan fo’r babi / plentyn yn dangos angen
- Mae’r sawl sy’n rhoi gofal yn ymateb mewn modd amserol a chyson
- Mae’r babi / plentyn yn teimlo’n ddiogel ac yn gallu ymgysylltu mewn pethau eraill e.e. chwarae, archwilio.
- Yr enw ar hyn yw’r cylch rhoi gofal (neu ymlacio cynnwrf).
- Pan fo’r anghenion yn cael eu bodloni yn y ffordd hon mae ymlyniadau diogel yn datblygu ac mae babanod/plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd.



# Ymlyniadau Diogel

- Diogelu babanod a phlant sydd wedi profi rhianta sylfaenol diogel sydd
  - Ar gael, yn ystyriol o’r meddwl, mewn cytgord, ac yn sensitif i’w hanghenion
  - Yn cefnogi archwilio, effeithiolrwydd a chyd-weithredu
  - Yn datblygu hunan-hyder
- Drwy’r rhyngweithio hyn mae babanod a phlant hefyd yn datblygu cred graidd amdanyn nhw eu hunain ac maen nhw’n defnyddio hyn i wneud honiad isymwybodol am p’un a ydynt yn hawdd eu caru a p’un a ydy eraill yn ddibynadwy ac yn deilwng o ymddiriedaeth.
- Yr enw ar hyn yw eich model gweithio mewnol.


# Modelau gweithio mewnol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae'r patrymau ymddygiad hyn a ddysgwyd, ac a elwir yn fodelau gweithio mewnol, yn ddylanwadau cryf ar sut y bydd plant yn ystyried gweithrediadau rhoddwyd gofal dilynol fel gofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol.
- Mae hyn yn golygu y byddant yn disgwyl i chi ymddwyn yn yr un ffordd â'u rhoddwyr gofal cyntaf ac felly byddant yn ymateb yn yr un ffordd, hyd yn oed os ydych chi'n ymddwyn mewn ffordd wahanol iawn.
- Oherwydd bod y pethau hyn yn cael eu dysgu cyn i fabanod feddu ar y datblygiad ymennydd sydd yn eu galluogi i feddw, maen nhw'n batrymau anodd ei newid.

# Pan fydd Rhoi Gofal yn anghyson

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# Hunan-gysyniad:
# Model Gweithio Mewnol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

| Diogel | Anniogel | Anhrefnus |
| --- | --- | --- |
| Rwyf yn dda, yn haeddu cariad, yn ddiogel | Nid wyf yn gwybod a ydw i'n dda neu'n ddrwy. Yn haeddu cariad ai peidio. Yn ddiogel ai peidio. | Rwyf yn ddrwg, nid wyf yn haeddu cariad, ac yn anniogel |
| Mae eraill yn ddibynadwy, yn haeddu ymddiriedaeth, yn ddiogel | Nid wyf yn deall eraill. Mae'n rhaid i mi barhau i brofi, rheoli, gwirio. | Nid yw eraill yn ddibynadwy, yn haeddu ymddiriedaeth nac yn ddiogel. |

# Dulliau ymlyniad osgoi

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae babanod a phlant osgoi wedi profi rhianta
  - Oedd yn gwrthod eu gofynion emosiynol
  - Oedd yn fewnwthiol / ansensitif i'w hanghenion
  - Oedd yn dibrisio eu teimladau
  - Oedd yn rhoi'r neges "paid â gwneud ffys – bydd yn hunanddibynnol"
  - Nad oedd yn cefnogi archwilio a chydweithredu
  - Nad oedd yn arwain at ddatblygu eu hunan-hyder
- Mae babanod a phlant yn mabwysiadu'r math hwn o roi gofal drwy gau eu teimladau i lawr, ymddygiad ymlyniad dadactifiedig a dibynnu arnyn nhw eu hunain.

# Dulliau ymlyniad amwys

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae babanod a phlant amwys wedi profi rhianta:
  - Sydd yn ansensitif ac ar gael ar adegau yn unig
  - Sydd yn amhenodol ac yn anrhagweladwy
  - Sydd yn sentimental, ond mae’r oedolyn wedi ymgolli gyda’u pryderon emosiynol eu hunain
  - Nad yw’n cefnogi archwilio a chydweithredu
  - Nad yw’n arwain at ddatblygu hunan-hyder y plentyn
  - Sydd wedi ymgolli mewn gwylltineb
- Mae babanod a phlant yn addasu i’r math hwn o roi gofal drwy orfywiogi eu hymddygiad ymlyniad a gwneud gorchmynion cyson yn y gobaith o gael gofal a sylw.

# Ymlyniadau anhrefnus

- Mae babanod a phlant anhrefnus wedi profi rhianta:
  - Sydd yn ofnus neu'n peri ofn
  - Sydd yn ansensitif ac nad yw ar gael
  - Sydd yn ddiymadferth ac yn elyniaethus
  - Sydd yn fewnwthiol
  - Nad yw'n cefnogi archwilio a chydweithredu
  - Nad yw'n arwain at ddatblygu hunan-hyder
  - Sydd yn negyddol am y plentyn a'r hunan
- Mae rhoddwyd gofal sydd yn ofnus neu'n peri ofn yn gadael y babanod gyda phenbleth na ellir ei datrys – os ydyn nhw'n mynd at y rhoddwr gofal am ddiogelwch, mae'r rhoddwr gofal yn cael ei brofi fel rhywun sy'n peri ofn yn hytrach na chynnig amddiffyniad.
- Mae rhiant a ddylai fod yn ffynhonnell o ddiogelwch hefyd yn fygythiad – mae hyn yn gadael y plentyn heb strategaeth effeithiol i ddelio gyda phryder neu straen

# Beth mae hyn yn ei olgyu ar gyfer ein teulu?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae'n werth cofio fod gan nifer o bobl ddulliau ansicr ac maen nhw'n arwain bywydau cwbl hapus a llwyddiannus.
- Mae nifer o fabwysiadwyr yn sylweddoli eu bod yn rhianta'n wahanol unwaith maen nhw'n dechrau meddwl am ddull ymlyniad eu plentyn oherwydd maen nhw'n dechrau archwilio a deall
  - sut mae eu plentyn yn deu defnyddio, fel ffigwr ymlyniad, i deimlo'n ddiogel.
  - beth am eu ffordd o roi gofal sy'n sbarduno mecanwaith amddiffyn y plentyn?
  - pam fod y plentyn yn ymddangos fel ei fod am reoli bob amser?
  - pam, weithiau, nad yw'r ffordd mae'r plentyn yn ymddwyn yn ymddangos i fod yn gysylltiedig gyda'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd?

# Y Cylch Rhoi Gofal

**Ymddygiad ac anghenion y plentyn**

**Meddwl a theimladau'r rhoddwr gofal – pennu eu hymddygiad**


**Datblygiad y Plentyn**

**Ymddygiad rhoi gofal–**

**cyfleu negeseuon i'r plentyn**

**Meddwl a theimladau'r plentyn –**

**Yn cael eu heffeithio gan y negeseuon gan y rhoddwr gofal sy'n effeithio ar ddatblygiad y plentyn – newidiadau cynyddol**



# Rhybudd iechyd!

- Mae’n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng ‘dull ymlyniad’ ac ‘anhwylderau ymlyniad’. Maen nhw’n bethau gwahanol
  - Mae dulliau ymlyniad yn disgrifio patrymau wrth ffurfio perthynas.
  - Mae anhwylderau ymlyniad yn gyflyrau iechyd meddwl clinigol sydd angen diagnosis gan ymarferwyr meddygol.
- Os ydych chi’n bryderus am iechyd meddwl plentyn mae’n bwysig iawn siarad gyda phobl yn eich gwasanaeth cefnogi mabwysiadu a’ch gwasanaeth meddygol – dechreuwch gyda’ch meddyg teulu.

# Ymlyniad ar draws y Boblogaeth

- Ar draws y poblogaethau adroddir fod y gwahaniaethau mewn dulliau fel a ganlyn:
  - Mae gan 59% o bobl ymlyniadau diogel
  - Mae gan 25% o bobl ymlyniadau osgoi
  - Mae gan 11% o bobl ymlyniadau pryderus
- Felly y ffigwr ar gyfer pobl gyda dulliau ymlyniad anhrefnus yw tua 5%, fodd bynnag mae'n codi i tua 80% pan fyddwch yn edrych ar blant sydd wedi cael eu camdrin.

# Rheoli Straen

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Perthnasau rhoi gofal cynnar yw'r ffyrdd mae babanod yn dysgu rheoli straen.
- Pan fydd gan fabi angen, ac fel arfer maen nhw'n crio – mae cynnydd yn eu lefelau adrenalin a chortisol – mae hwn yn ymateb i straen.
- Bydd cri'r babi yn achosi ymateb i straen mewn rhoddwr gofal sydd ag ymlyniad - felly byddant yn cynhyrchu adrenalin a chortisol hefyd.
- Pan fydd y rhoddwr gofal yn ymateb – mae'r babi'n cael ei fwydo, ei fagu, ei leddfu – mae'r rhoddwr gofal yn tawelu h.y. mae eu lefelau adrenalin a chortisol yn lleihau.
- Mae ymateb corff y babi yn adlewyrchu ymateb corff y rhoddwr gofal hy mae eu lefelau adrenalin a chortisol yn lleihau, ac maen nhw'n tawelu.
- Yn y ffordd hon mae ein cyrff yn dysgu rheoleiddio straen.

# Rhianta atgyweiriol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae'n hanfodol cofio fod y gall ail-rianta therapiwtig gwybodus wirioneddol helpu plant a phobl ifanc fyw gydag effaith profiadau gwael yn ystod bywyd cynnar – dyna'r ydych chi'n ei wneud!

'Mae'n dda iawn deall pam fod ein plant yn ymddwyn mewn ffordd benodol. Fe wnaeth gwybod am ymlyniad fy helpu i addasu fy null rhianta a daeth fy nisgwyliadau yn fwy realistig. Fe wnaeth gymryd amser, ond fe wnaeth weithio allan i ni ferl teulu"

Rhiant mabwysiadol

# Negeseuon Allweddol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Dyma beth roedden nhw am ei glywed …….

Chwiliwch am wybodaeth,

peidiwch â bod ofn gofyn am help

Gofalwch amdanoch chi eich hun!

"Roedd hi'n ddefnyddiol pan roedd rhywun yn dweud 'Nid yw ceisio perffeithrwydd yn ddigon; mae digon da yn ddigon da'"

Mae'n iawn – nid ydym yn iawn bob amser – ar ôl diwrnod anodd, cofiwch y gallwch ddechrau eto yfory!

# Crynodeb

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Gall gwybod am theori ymlyniad helpu i awgrymu ffordd wahanol o rianta y mae rhieni mabwysiadol yn ei chael yn ddefnyddiol.
- Efallai nad yw'r hyn sy'n sbarduno'r ymddygiad yn bresennol. Gallai fod
  - yn rhywbeth y mae'r plentyn yn ei ragweld oherwydd yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn y gorffennol am sut y bydd rhoddwyr gofal yn ymateb
  - yn deimlad maen nhw'n ei brofi e.e. gallant deimlo'n anniogel oherwydd na allant ddefnyddio rhoddwyr gofal i'w helpu i deimlo'n ddiogel
  - yn deimlad nad ydynt yn gallu ei reoleiddio.
- Mae rhoi gofal cadarnhaol, ymatebol bob amser yn beth da i blant, er na fyddant bob amser yn dangos hyn i chi drwy eu hymatebion.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae'r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Gellir dod o hyd i'r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Siaradwch gyda'ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth